

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU****NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES****OFFERYNNAU STATUDOL****STATUTORY INSTRUMENTS****2006 Rhif 877 (Cy.82)****2006 No. 877 (W.82)****ADDYSG, CYMRU****EDUCATION, WALES****Rheoliadau'r Cynllun Addysg
Sengl (Cymru) 2006****The Single Education Plan (Wales)
Regulations 2006****NODYN ESBONIADOL****EXPLANATORY NOTE***(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)**(This note is not part of the Regulations)*

Mae adran 29 o Ddeddf Addysg 1996 (Deddf 1996), yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Addysg Lleol (yr awdurdod) ddarparu gwybodaeth ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol).

Section 29 of the Education Act 1996 (the 1996 Act), requires a Local Education Authority (the authority) to provide information to the National Assembly for Wales (the National Assembly).

Mae adran 26 o Ddeddf Plant 2004 (Deddf 2004) yn darparu y gall y Cynulliad Cenedlaethol ei gwneud yn ofynnol, drwy Reoliadau, i awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru, o bryd i'w gilydd, baratoi a chyhoeddi cynllun yn nodi strategaeth yr awdurdod ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc berthnasol.

Section 26 of the Children Act 2004 (the 2004 Act), provides that the National Assembly can require by Regulations a children's services authority in Wales, from time to time to prepare and publish a plan setting out the authority's strategy for discharging their functions in relation to children and relevant young persons.

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adrannau 29(3), (5) a 569 o Ddeddf 1996 a 26 o Ddeddf 2004, ac maent yn dirymu ac yn disodli'r Rheoliadau canlynol:-

These Regulations are made under sections 29(3), (5) and 569 of the 1996 Act and 26 of the 2004 Act, and revoke and replace the following Regulations:-

Rheoliadau Awdurdod Addysg Lleol (Cynlluniau Cymorth Ymddygiad) 1998;

The Local Education Authority (Behaviour Support Plans) Regulations 1998;

Rheoliadau Awdurdod Addysg Lleol (Cynlluniau Cymorth Ymddygiad) (Diwygio) (Cymru) 2001;

The Local Education Authority (Behaviour Support Plans) (Amendment) (Wales) Regulations 2001;

Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Cymru) 2002;

The Education Development Plans (Wales) Regulations 2002;

Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 2003;

The Education (School Organisation Plans) (Wales) Regulations 2003;

Rheoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) 2003, rheoliadau 5 i 7 a'r Atodlen;

The Education (Nursery Education and Early Years Development and Childcare Plans) (Wales) Regulations 2003, regulations 5 to 7 and the Schedule;

Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Diwygio) (Cymru) 2005.

The Education Development Plans (Amendment) (Wales) Regulations 2005.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer y materion canlynol:-

These Regulations provide for the following matters:-

Y gofyniad am i awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Addysg Sengl (rheoliad 3);

Cynnwys Cynllun Addysg Sengl (rheoliad 4 ac Atodlenni 2 a 3);

Cyfnod Cynllun Addysg Sengl (rheoliad 5);

Y personau a'r cyrff y mae'n ofynnol i awdurdod ymgynghori â hwy pan fo'n paratoi Cynllun Addysg Sengl, ac ym mha ddull y mae'n ofynnol iddynt gyflawni'r ymgynghoriad hwnnw (rheoliad 6);

Y dyddiad y mae'n ofynnol i awdurdod fabwysiadu Cynllun Addysg Sengl (rheoliad 7);

Y dyddiad y mae'n ofynnol i awdurdod gyhoeddi Cynllun Addysg Sengl (rheoliad 8);

Diwygio Targedau ar gyfer cyrhaeddiad, presenoldebau a gwaharddiad (rheoliad 9 a Rhan 3 o Atodlen 2);

Diwygio Gwybodaeth Ategol (rheoliad 10 ac Atodlen 3);

Ym mha ddull y mae'n ofynnol i'r awdurdod gyhoeddi dogfennau (rheoliad 11);

Y personau y mae'n ofynnol i awdurdod ddarparu copïau o Gynllun Addysg Sengl ar eu cyfer (rheoliad 12);

Y darpariaethau trosiannol sy'n ymwneud ag adran 44 o Ddeddf Addysg 2005 yn dod i rym (rheoliad 13).

The requirement for an authority to prepare and publish a Single Education Plan (regulation 3);

The content of a Single Education Plan (regulation 4 and Schedules 2 and 3);

The duration of a Single Education Plan (regulation 5);

The persons and bodies whom an authority is required to consult when preparing a Single Education Plan, and the manner in which they are required to carry out that consultation (regulation 6);

The date on which an authority is required to adopt a Single Education Plan (regulation 7);

The date on which an authority is required to publish a Single Education Plan (regulation 8);

The revision of Targets for attainment, attendance and exclusion (regulation 9 and Part 3 of Schedule 2);

The revision of Supporting Information (regulation 10 and Schedule 3);

The manner in which the authority is required to publish documents (regulation 11);

The persons to whom an authority is required to provide copies of a Single Education Plan (regulation 12);

The transitional provisions relating to section 44 of the Education Act 2005 coming into force (regulation 13).

2006 Rhif 877 (Cy.82)**2006 No. 877 (W.82)****ADDYSG, CYMRU****EDUCATION, WALES****Rheoliadau'r Cynllun Addysg
Sengl (Cymru) 2006****The Single Education Plan (Wales)
Regulations 2006***Wedi'u gwneud* 21 Mawrth 2006*Made* 21 March 2006*Yn dod i rym* 1 Ebrill 2006*Coming into force* 1 April 2006

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 29(3), (5) a 569 o Ddeddf Addysg 1996(1), ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(2) a'r pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 26 a 66(1) o Ddeddf Plant 2004(3), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:-

In exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 29(3), (5) and 569 of the Education Act 1996(1), now vested in the National Assembly for Wales(2), and the powers conferred on the National Assembly for Wales by sections 26 and 66(1) of the Children Act 2004(3), the National Assembly for Wales makes the following Regulations:-

Enwi, cychwyn, dirymu a chymhwyso**Title, commencement, revocation and application**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Cynllun Addysg Sengl (Cymru) 2006, a deuant i rym ar 1 Ebrill 2006.

1.-(1) The title of these Regulations is the Single Education Plan (Wales) Regulations 2006, and they come into force on 1 April 2006.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), dirymir y Rheoliadau a restrir yn y golofn gyntaf a'r ail o'r tabl yn Atodlen 1 i'r graddau a bennir yn y drydedd golofn o'r tabl hwnnw.

(2) Subject to paragraph (3), the Regulations listed in the first and second columns of the table in Schedule 1 are revoked to the extent specified in the third column of that table.

(3) Mae unrhyw gynllun, sydd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2006, ac a wnaed o dan y Rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2), i barhau mewn grym tan 1 Medi 2006 er gwaethaf y ffaith bod y paragraff hwnnw yn dirymu'r Rheoliadau y cafodd y cynllun ei wneud odano.

(3) Any plan, in force immediately before 1 April 2006, made under the Regulations referred to in paragraph (2), is to continue in force until 1 September 2006 despite the revocation by that paragraph of the Regulations under which it was made.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) These Regulations apply in relation to Wales.

(1) 1996 p.56. Diwygiwyd is-adran (3) o adran 29 gan adran 140(1) a (3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31), ac Atodlenni 30 a 31 iddi. Am y diffiniad o "prescribed" a "regulations" gweler adran 142(1) o Ddeddf 1998.

(2) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(3) 2004 p.31. Cafodd adran 26 ei chychwyn ar 1 Ebrill 2006 gan O.S. 2006/885 (Cy.85)(C.23).

(1) 1996 c.56. Sub-section (3) of section 29 was amended by section 140(1) and (3) of, and Schedule 30 and 31 to the School Standards and Framework Act 1998 (c.31). For the definition of "prescribed" and "regulations" see section 142(1) of the 1998 Act.

(2) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(3) 2004 c.31. Section 26 was commenced on 1 April 2006 by S.I. 2006/885 (W.85)(C.23).

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn-

mae i "addysg feithrin" yr ystyr a roddir i "nursery education" yn adran 117 o Ddeddf 1998, ac mae lleoedd meithrin i'w dehongli yn unol â hynny;

mae "a waherddir" ac "a waharddwyd" ("excluded") yn golygu gwahardd am resymau disgyblu, ac mae "wedi'u gwahardd" a "gwaharddiad" ("exclusion") i'w dehongli'n unol â hynny;

ystyr "awdurdod" ("authority") yw awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru sy'n awdurdod addysg lleol(1);

ystyr "awdurdod esgobaethol priodol" ("appropriate diocesan authority") mewn perthynas ag un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig yw-

- (i) y Bwrdd Cyllid Esgobaethol neu berson arall a ddynodir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 142(1) o Ddeddf 1998(2) (yn ôl y digwydd) ar gyfer pob un o esgobaethau'r Eglwys yng Nghymru, a
- (ii) esgob pob un o esgobaethau'r Eglwys Gatholig Rufeinig,

y mae unrhyw ran o'u hardal (ym mhob achos) yn dod o fewn ardal yr awdurdod;

ystyr "Cynllun Addysg Sengl" ("Single Education Plan") yw'r cynllun y cyfeirir ato yn rheoliad 3(3) ac, oni nodir yn wahanol, mae'n cynnwys yr Wybodaeth Ategol;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("National Assembly") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Deddf 1996" ("the 1996 Act") yw Deddf Addysg 1996;

ystyr "Deddf 1998" ("the 1998 Act") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(3);

ystyr "Deddf 2002" ("the 2002 Act") yw Deddf Addysg 2002(4);

ystyr "Deddf 2004" ("the 2004 Act") yw Deddf Plant 2004(5);

ystyr "Targedau" ("Targets") yw'r Targedau y cyfeirir atynt yn Rhan 3 o Atodlen 2;

-
- (1) *Gweler* adran 65(1) o Ddeddf 2004 ar gyfer ystyr awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru, sy'n golygu cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.
 - (2) Trosglwyddwyd swyddogaeth dynodi o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672).
 - (3) 1998 p.31.
 - (4) 2002 p.32.
 - (5) 2004 p.31.

Interpretation

2.-(1) In these Regulations-

"the 1996 Act" ("Deddf 1996") means the Education Act 1996;

"the 1998 Act" ("Deddf 1998") means the School Standards and Framework Act 1998(1);

"the 2002 Act" ("Deddf 2002") means the Education Act 2002(2);

"the 2004 Act" ("Deddf 2004") means the Children Act 2004(3);

"appropriate diocesan authority" ("awdurdod esgobaethol priodol") means in relation to a Church in Wales school or a Roman Catholic Church school-

- (i) the Diocesan Board of Finance or other person designated by the National Assembly under section 142(1) of the 1998 Act(4) (as the case may be) for every diocese of the Church in Wales, and
- (ii) the bishop of every diocese of the Roman Catholic Church,

any part of the area of which (in each case) lies within the authority's area;

"authority" ("awdurdod") means a children's services authority in Wales which is a local education authority(5);

"Church in Wales school" ("un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru") has the meaning given to it by section 142(1) of the 1998 Act;

"excluded" ("a waherddir" ac "a waharddwyd") means excluded on disciplinary grounds, and "exclusion" ("wedi'u gwahardd" a "gwaharddiad") has a corresponding meaning;

"National Assembly" ("y Cynulliad Cenedlaethol") means the National Assembly for Wales;

"nursery education" ("addysg feithrin") has the meaning given to it by section 117 of the 1998 Act, and nursery places is to be construed accordingly;

"Roman Catholic Church school" ("un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig") has the meaning given to it by section 142(1) of the 1998 Act;

-
- (1) 1998 c.31.
 - (2) 2002 c.32.
 - (3) 2004 c.31.
 - (4) The function of designating has been transferred under the National Assembly Transfer of Functions Order 1999 (S.I.1999/672).
 - (5) *See* section 65(1) of the 2004 Act for the meaning of children's services authority in Wales, which means a county council or county borough council.

mae i "un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig" yr ystyr a roddir i "*Roman Catholic Church school*" gan adran 142(1) o Ddeddf 1998;

mae i "un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru" yr ystyr a roddir i "*Church in Wales school*" gan adran 142(1) o Ddeddf 1998;

ystyr "yr Wybodaeth Ategol" ("*the Supporting Information*") yw'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 4; a

mae i "ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol" (gan gynnwys unrhyw gyfeiriad at ysgol a gynhelir gan awdurdod penodol) yr ystyr a roddir i "*school maintained by a local education authority*" gan adran 142(1) o Ddeddf 1998.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriadau at gyhoeddi (sut bynnag y cânt eu mynegi) yn gyfeiriadau at gyhoeddi yn unol â rheoliad 11.

Awdurdodau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Addysg Sengl

3.-(1) Rhaid i bob awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Addysg Sengl yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i'r cynllun gynnwys datganiad ynghylch y weledigaeth a'r gwerthoedd strategol cyffredinol y mae'r awdurdod yn eu harddel wrth gyflawni ei gyfrifoldebau o ran addysg, gan gadw mewn cof ei gyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb gan gynnwys, yn benodol, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993(1), Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975(2), Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976(3), Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995(4), a Deddf Hawliau Dynol 1998(5).

(3) Yn y rheoliad hwn ystyr "Cynllun Addysg Sengl" ("*Single Education Plan*") yw cynllun o'r math y cyfeirir ato yn adran 26(1) o Ddeddf 2004 sy'n cwmpasu strategaethau'r awdurdod ar gyfer-

- (a) codi safonau addysg plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod neu heb fod yn yr ysgol;
- (b) gwella perfformiad ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod;
- (c) cynllunio lleoedd ysgol a lleoedd meithrin i fodloni anghenion poblogaeth ardal yr awdurdod; ac
- (ch) addysgu disgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol oherwydd salwch, neu oherwydd eu bod wedi'u gwahardd neu am resymau eraill;

"school maintained by a local education authority" ("*ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol*") (including any reference to a school maintained by a specific authority) has the meaning given to it by section 142(1) of the 1998 Act;

"Single Education Plan" ("*Cynllun Addysg Sengl*") means the plan referred to in regulation 3(3) and, unless the contrary is indicated, includes the Supporting Information;

"the Supporting Information" ("*yr Gwybodaeth Ategol*") means the information referred to in regulation 4; and

"Targets" ("*Targedau*") means the Targets referred to in Part 3 of Schedule 2.

(2) In these Regulations, references to publication (however expressed) are references to publication in accordance with regulation 11.

Authorities to prepare and publish Single Education Plan

3.-(1) Each authority must prepare and publish a Single Education Plan in accordance with these Regulations.

(2) The plan must contain a statement of the overall strategic vision and values that the authority apply in discharging their education responsibilities, having regard to their responsibilities under equality legislation, including in particular the Welsh Language Act 1993(1), the Sex Discrimination Act 1975(2), the Race Relations Act 1976(3), the Disability Discrimination Act 1995(4), and the Human Rights Act 1998(5).

(3) In this regulation a "Single Education Plan" ("*Cynllun Addysg Sengl*") means a plan of the kind referred to in section 26(1) of the 2004 Act covering the authority's strategies for-

- (a) raising the standards of education for children and young people being educated at schools maintained by the authority or otherwise than at school;
- (b) improving the performance of schools maintained by the authority;
- (c) the planning of school places and nursery places to meet the needs of the population of the authority's area; and
- (d) the education of pupils who by reason of illness, exclusion or otherwise are not attending school;

(1) 1993 p.38.

(2) 1975 p.65.

(3) 1976 p.74.

(4) 1995 p.50.

(5) 1998 p.42.

(1) 1993 c.38.

(2) 1975 c.65.

(3) 1976 c.74.

(4) 1995 c.50.

(5) 1998 c.42.

ac yn cwmpasu Targedau ar gyfer gwella cyrhaeddiad a phresenoldeb disgyblion, ac ar gyfer gostwng nifer y disgyblion a waherddir o'r ysgol.

(4) Rhaid i gynnwys Cynllun Addysg Sengl gydymffurfio â rheoliad 4.

Cynnwys Cynllun Addysg Sengl

4. Rhaid i bob Cynllun Addysg Sengl gynnwys darpariaeth sy'n ymdrin â'r materion y cyfeirir atynt yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, a rhaid i'r wybodaeth ategol y cyfeirir ati yn Atodlen 3 ("yr Wybodaeth Ategol") fynd gydag ef.

Cyfnod Cynllun Addysg Sengl

5. Mae pob Cynllun Addysg Sengl i fod yn effeithiol am gyfnod yn cychwyn ar 1 Medi 2006 ac yn gorffen ar 31 Awst 2008.

Ymgynghori

6.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn rhagnodi'r ymgynghoriad y mae'n ofynnol i bob awdurdod ei gynnwys wrth iddo lunio'i Gynllun Addysg Sengl.

(2) Rhaid ymgynghori â'r canlynol ynghylch y cynllun drafft-

- (a) y Cynulliad Cenedlaethol;
- (b) pennaeth a chorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod;
- (c) mewn perthynas â phob uned cyfeirio disgyblion a gynhelir gan yr awdurdod-
 - (i) yr athro neu'r athrawes â gofal, a
 - (ii) pan fo Rheoliadau o dan baragraff 15 o Atodlen 1 i Ddeddf 1996(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod sefydlu pwyllgor rheoli ar gyfer yr uned honno, y pwyllgor hwnnw;
- (ch) yr awdurdod esgobaethol priodol ar gyfer unrhyw un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu unrhyw un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig a gynhelir gan yr awdurdod;
- (d) Bwrdd yr Iaith Gymraeg (o fewn ystyr adran 1 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993);
- (dd) Byrddau Iechyd Lleol (o fewn yr ystyr sydd i Local Health Boards yn adran 16BA o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(2));

and Targets for improved pupil attainment and attendance, and for reducing the number of pupils excluded from school.

(4) The content of a Single Education Plan must conform with regulation 4.

Content of Single Education Plan

4. Each Single Education Plan must include provision dealing with the matters referred to in Schedule 2 to these Regulations, and must be accompanied by the supporting information referred to in Schedule 3 ("the Supporting Information").

Duration of Single Education Plan

5. Each Single Education Plan is to have effect for the period commencing on 1 September 2006 and ending on 31 August 2008.

Consultation

6.-(1) This regulation prescribes the consultation which each authority are required to carry out in drawing up their Single Education Plan.

(2) The following must be consulted on the plan in draft-

- (a) the National Assembly;
- (b) the head teacher and the governing body of every school maintained by the authority;
- (c) in relation to every pupil referral unit maintained by the authority-
 - (i) the teacher in charge, and
 - (ii) where Regulations under paragraph 15 of Schedule 1 to the 1996 Act(1) require the authority to establish a management committee for that unit, that committee;
- (d) the appropriate diocesan authority for any Church in Wales school or Roman Catholic school maintained by the authority;
- (e) the Welsh Language Board (within the meaning of section 1 of the Welsh Language Act 1993);
- (f) Local Health Boards (within the meaning of section 16BA of the National Health Service Act 1977(2));

(1) Mewnosodwyd paragraff 15 gan adran 48 o Ddeddf Addysg 1997 (p.44), ac fe'i ddiwygiwyd gan adran 140 o Ddeddf 1998, ac Atodlen 30 iddi, a chan Orchymyn Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol ac Amgen) (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Eraill) (Cymru) 2002, O.S. 2002/808 (Cy.89).

(2) 1977 p.49. Mewnosodwyd adran 16BA gan adran 6(1) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17).

(1) Paragraph 15 was inserted by section 48 of the Education Act 1997 (c.44), and amended by section 140 of, and Schedule 30 to the 1998 Act, and the Local Authorities (Executive and Alternative Arrangements) (Modification of Enactments and other provisions) (Wales) Order 2002, S.I. 2002/808 (W.89).

(2) 1977 c.49. Section 16BA was inserted by section 6(1) of the National Health Service Reform and Health Care Professionals Act 2002 (c.17).

- (e) Ymddiriedolaethau GIG (o fewn yr ystyr sydd i NHS Trusts yn adran 5 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990(1));
- (f) y Bartneriaeth Pobl Ifanc(2);
- (ff) Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (o fewn yr ystyr sydd i Early Years Development and Childcare Partnership yn adran 119 o Ddeddf 1998)(3);
- (g) Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (o fewn yr ystyr sydd i Standing Advisory Council on Religious Education yn adran 390 o Ddeddf 1996)(4);
- (ng) Timau Troseddau Ieuenctid (o fewn yr ystyr sydd i Youth Offending Teams yn adran 39 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998)(5);
- (h) Partneriaeth Diogelwch Cymunedol(6);
- (i) Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc(7); a
- (j) y cyfryw bobl neu gyrff eraill sydd ym marn yr awdurdod yn briodol.

(3) Yn achos y cyrff y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (dd) i (i) o baragraff (2), dim ond â chyrff sy'n cwmpasu ardal gyfan yr awdurdod neu unrhyw ran ohoni y mae'n rhaid ymgynghori.

(4) Rhaid i'r awdurdod ymgynghori ar y cynllun drafft am gyfnod o ddim llai nag wyth wythnos.

(5) Rhaid i'r awdurdod gynnal yr ymgynghoriad drwy anfon at bob ymgynghorai gopi drafft o'r cynllun yn gwahodd sylwadau o fewn cyfnod penodedig.

(6) Caniateir bodloni'r gofyniad ym mharagraff (5) am anfon copi drafft o'r cynllun at ymgynghoreion drwy anfon copïau'n electronig.

(7) At ddibenion y rheoliad hwn nid yw "Cynllun Addysg Sengl" yn cynnwys yr Wybodaeth Ategol.

- (g) NHS Trusts (within the meaning of section 5 of National Health Service and Community Care Act 1990(1));
- (h) the Young People's Partnership(2);
- (i) the Early Years Development and Childcare Partnership (within the meaning of section 119 of the 1998 Act)(3);
- (j) the Standing Advisory Council on Religious Education (within the meaning of section 390 of the 1996 Act)(4);
- (k) Youth Offending Teams (within the meaning of section 39 of the Crime and Disorder Act 1998)(5);
- (l) Community Safety Partnerships(6);
- (m) Children and Young People's Partnership(7); and
- (n) such other persons or bodies as appear to the authority to be appropriate.

(3) In the case of the bodies referred to in subparagraphs (f) to (m) of paragraph (2) only bodies which cover the whole or any part of the authority's area are to be consulted.

(4) The authority must consult on the draft plan for a period of not less than eight weeks.

(5) The authority must carry out the consultation by sending to every consultee a draft of the plan inviting comments on it within a specified period.

(6) The requirement in paragraph (5) to send a draft of the plan to consultees may be satisfied by sending copies by electronic mail.

(7) For the purposes of this regulation "Single Education Plan" does not include the Supporting Information.

(1) 1990 p.19.

(2) Mae partneriaeth o dan yr enw hwnnw yn cynnwys unrhyw bartneriaeth a sefydlwyd er hyrwyddo amcanion adran 123(2) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21).

(3) Diwygiwyd adran 119 gan adran 150 o Ddeddf 2002.

(4) Diwygiwyd adran 390 gan adran 140(1) o Ddeddf 1998 ac Atodlen 30 iddi.

(5) 1998 p.37. Mae adran 39 wedi ei diwygio gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000 (p.43), a Deddf Plant 2004.

(6) Sefydlwyd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol at ddibenion adrannau 5 a 6 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

(7) Mae Partneriaeth o dan yr enw hwnnw yn cynnwys unrhyw Bartneriaeth Plant a sefydlwyd i hybu amcanion adrannau 25 a 26 o Ddeddf Plant 2004.

(1) 1990 c.19.

(2) A partnership under that name, includes, any partnership established for the furtherance of the objectives of section 123(2) of the Learning and Skills Act 2000 (c.21).

(3) Section 119 was amended by section 150 of the 2002 Act.

(4) Section 390 was amended by section 140(1) of, and Schedule 30 to the 1998 Act.

(5) 1998 c.37. Section 39 was amended by the Criminal Justice and Court Services Act 2000 (c.43), and the Children Act 2004.

(6) The Community Safety Partnership was established for the purposes of sections 5 and 6 of the Crime and Disorder Act 1998.

(7) A Partnership under that name, includes, any Children's Partnership established for the furtherance of the objectives of sections 25 and 26 of the 2004 Act.

Mabwysiadu Cynllun Addysg Sengl

7. Rhaid i bob awdurdod fabwysiadu Cynllun Addysg Sengl erbyn 31 Gorffennaf 2006.

Cyhoeddi Cynllun Addysg Sengl

8. Rhaid i bob awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Addysg Sengl, fel y'i mabwysedir felly, erbyn 1 Medi 2006.

Diwygio Targedau

9.-(1) Rhaid diwygio'r Targedau, a rhaid cyhoeddi'r Targedau diwygiedig ar 31 Gorffennaf 2007 neu cyn hynny.

(2) Rhaid i'r Targedau diwygiedig gwmpasu blwyddyn ysgol 2007-08 a blwyddyn ysgol 2008-09.

(3) Nid oes angen i'r awdurdod ymgynghori ynghylch ei Dargedau diwygiedig.

Diwygio'r Wybodaeth Ategol

10.-(1) Rhaid diwygio'r Wybodaeth Ategol a rhaid cyhoeddi'r Wybodaeth Ategol ddiwygiedig ar neu cyn 31 Gorffennaf 2007.

(2) Rhaid i'r wybodaeth ddiwygiedig gwmpasu-

- (a) yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraffau 1(a) i (ch) o Atodlen 3 am y flwyddyn ysgol 2006-07 a'r pum mlynedd ysgol ganlynol;
- (b) yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (d) o Atodlen 3 am y flwyddyn ysgol 2006-07, 2007-08 a 2008-09; ac
- (c) yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (dd) o Atodlen 3 ar gyfer y flwyddyn ysgol 2006-07.

(3) Nid oes angen i'r awdurdod ymgynghori ynghylch yr Wybodaeth Ategol ddiwygiedig.

Gofynion cyhoeddi

11.-(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn, rhaid trin dogfennau y mae'n ofynnol eu cyhoeddi fel pe baent wedi eu cyhoeddi ar y dyddiad y bodlonir y gofynion a nodir isod yn y rheoliad hwn neu, os bodlonir gofynion gwahanol ar ddyddiadau gwahanol, ar yr olaf o'r dyddiadau hynny.

(2) Rhaid i bob awdurdod gyhoeddi'r ddogfen yn electronig ar safle'r awdurdod ar y rhyngwyd.

(3) Rhaid i bob awdurdod ar unrhyw adegau a fyddo'n rhesymol sicrhau bod copïau o'r ddogfen ar gael i'w harchwilio gan aelodau o'r cyhoedd-

- (a) yn swyddfeydd yr awdurdod; a
- (b) mewn unrhyw fannau eraill a fyddo'n rhesymol.

Adoption of Single Education Plan

7. Each authority must adopt a Single Education Plan by 31 July 2006.

Publication of Single Education Plan

8. Each authority must publish their Single Education Plan, as so adopted, by 1 September 2006.

Revision of Targets

9.-(1) The Targets are to be reviewed and revised Targets published, on or before 31 July 2007.

(2) The revised Targets are to cover the school years 2007-08 and 2008-09.

(3) The authority need not consult on their revised Targets.

Revision of the Supporting Information

10.-(1) The Supporting Information is to be reviewed, and revised Supporting Information, published on or before 31 July 2007.

(2) The revised information is to cover-

- (a) the information referred to in paragraphs (a) to (d) of Schedule 3 for the school year 2006-07 and the following five school years;
- (b) the information referred to in paragraph (e) of Schedule 3 for the school years 2006-07, 2007-08 and 2008-09; and
- (c) the information referred to in paragraph (f) of Schedule 3 for the school year 2006-07.

(3) The authority need not consult on revised Supporting Information.

Publication requirements

11.-(1) For the purposes of these Regulations, documents which are required to be published are to be treated as published on the date on which the requirements set out below in this regulation are satisfied or, if different requirements are satisfied on different dates, on the last of those dates.

(2) Each authority must publish the document electronically on the internet on the authority's website.

(3) Each authority must at such times as may be reasonable, make copies of the document available for inspection by members of the public-

- (a) at the authority's offices; and
- (b) at such other places as may be reasonable.

Darparu copïau o Gynllun Addysg Sengl

12.-(1) Rhaid i bob awdurdod ddarparu copi o'i Gynllun Addysg Sengl ar gyfer-

- (a) yr holl rai hynny y mae'n ofynnol ymgynghori â hwy o dan reoliad 6; a
- (b) unrhyw berson sy'n gofyn am gopi.

(2) Rhaid darparu copi o'r diwygiadau a wneir i'r Targedau yn unol â rheoliad 9 ar gyfer-

- (a) y Cynulliad Cenedlaethol;
- (b) pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod; ac
- (c) unrhyw berson sy'n gofyn am gopi.

(3) Rhaid darparu copi o'r diwygiadau a wneir i'r Wybodaeth Ategiol yn unol â rheoliad 10 ar gyfer-

- (a) y Cynulliad Cenedlaethol;
- (b) pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod; ac
- (c) unrhyw berson sy'n gofyn am gopi.

(4) Pan fo person yn gofyn am gopi o dan baragraff (1), (2) neu (3) caniateir bodloni'r gofyniad drwy anfon y copi'n electronig.

Darpariaeth drosiannol

13. Hyd oni ddaw adran 44 o Ddeddf Addysg 2005 i rym(1), mae cyfeiriadau ym mharagraff 3(a)(ii) a (iii) o Atodlen 2 sy'n nodi ei bod yn ofynnol cymryd mesurau arbennig mewn cysylltiad â'r ysgol i'w darllen fel pe bai'r cyfeiriadau'n nodi bod mesurau arbennig yn ofynnol ar gyfer yr ysgol o fewn ystyr adran 13(9) o Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996(2), ac mae cyfeiriadau yn y paragraffau hynny sy'n nodi ei bod yn ofynnol i'r ysgol wella'n sylweddol i'w darllen fel pe bai'r cyfeiriadau'n nodi bod gan yr ysgol ddiffygion difrifol yn ystyr adran 16A(4) o Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996(3).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(4).

21 Mawrth 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Provision of copies of Single Education Plan

12.-(1) Each authority must provide a copy of their Single Education Plan to-

- (a) all those required to be consulted under regulation 6; and
- (b) any person who requests a copy.

(2) A copy of the revisions made to the Targets in pursuance of regulation 9 must be provided to-

- (a) the National Assembly;
- (b) every school maintained by the authority; and
- (c) any person who requests a copy.

(3) A copy of the revisions made to the Supporting Information in pursuance of regulation 10 must be provided to-

- (a) the National Assembly;
- (b) every school maintained by the authority; and
- (c) any person who requests a copy.

(4) Where a copy is requested under paragraph (1), (2) or (3) the requirement may be satisfied by sending it by electronic mail.

Transitional provision

